# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Polisi Amgylcheddol

Gorffennaf 2025

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Polisi Amgycheddol Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru yw sefydliad swyddogol sy'n ariannu a datblygu ein celfyddydau. Ein prif noddwr yw Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn dosbarthu arian gan y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol o ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi a hyrwyddo'r cyfraniad pwysig y mae'r celfyddydau yn ei wneud at fywyd Cymru.

Mae'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau a'n rhaglenni gwaith ar y dyfodol gan weithio lle bynnag sy'n bosibl mewn modd cynaliadwy sy'n amddiffyn yr amgylchedd. Rydym yn gweithio'n galed i fodloni'r holl ddeddfau a rheoliadau amgylcheddol sy'n effeithio ar ein busnes neu ragori ar eu gofynion.

Rydym hefyd yn dylanwadu ar bobl eraill i annog perfformiad amgylcheddol da drwy ein perthynas ariannu gydag artistiaid, sefydliadau celfyddydol a phartneriaid.

Mae hyn yn cynnwys:

- bod yn eiriolwr dros egwyddorion lles a chynaliadwyedd
- gwella'n barhaus ein hamddiffyniad o'r amgylchedd
- monitro'r pethau sy'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd

Rhaid i bob prosiect adeiladu â'n harian cyfalaf gael targedau amgylcheddol penodol i gyrraedd safonau BREEAM.

Byddwn yn gweithio i atal problemau amgylcheddol gan gynllunio a mabwysiadu technolegau, gweithdrefnau a dulliau caffael sy'n dangos yr ymrwymiad.

Cyfrifoldeb corfforaethol yw cyflawni ein hymrwymiadau amgylcheddol ac mae'n berthnasol i holl aelodau o'n Cyngor, ein staff, ein hasiantau a'r rhai a benodwn.

Mae Tîm Arwain Gweithredol y Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo a monitro'r polisi drwy ein gweithdrefnau rheoli perfformiad. Byddwn yn cynhyrchu gwybodaeth fonitro briodol i gefnogi hyn a'i chyhoeddi yn ein cyfrifon statudol blynyddol.

Bydd yr holl staff a phobl berthnasol eraill yn cael gwybod am y polisi a'i weithdrefnau. Byddwn yn cynnig hyfforddiant i'r rhai y mae eu cyfrifoldebau'n effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd.

Bydd cydymffurfio â'r polisi yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) y canlynol:

- atal a lleihau llygredd
- cydymffurfio â'n rhwymedigaethau am yr amgylchedd
- prynu (caffael) offer a nwyddau, print a chyhoeddiadau
- gwaredu offer a gwastraff
- y defnydd o ynni
- teithio
- rheoli grantiau

Agwedd allweddol o'n gwaith yw perswadio'r sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn ac yn rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru i wella cynaliadwyedd eu gwaith.

Byddwn yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o fesur ac adrodd yn well ar berfformiad amgylcheddol y Portffolio.

| Teitl | Dyddiad | Polisi Amgylcheddol |
|---|---|---|
| Rhifyn | / | 5 |
| Cytunwyd | Mawrth 2015 | Uwch Dîm Arwain |
| Diweddarwyd ddiwethaf | Mehefin 2019 | Rheolwr Cyfleusterau a Chaffael/ Uwch Dîm Arwain |
| Adolygwyd ddiwethaf | Ebrill 2025 | Rheolwr Cyfleusterau a Chaffael/ Uwch Dîm Arwain |
| Yr adolygiad nesaf (blynyddol) | Ebrill 2026 | Rheolwr Cyfleusterau a Chaffael/ Archwilwyr allanol |

**Llofnod:**



**Dyddiad:** 29 Ebrill 2025

Nodyn: llofnod y person sy'n gyfrifol am weithredu polisi (fel y Prif Weithredwr, llywydd neu berchennog)